PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Congreve, Driscoll, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Lay, Murphy a/ac Keith Parry |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Gordon a Lay

10 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2017 fel cofnod cywir.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Murphy | | O blaid y cais |

12 : DEISEBAU

Ceisiadau rhif 16/02752/MJR, Lozelles, Church Road, Llys-faen

Mewn perthynas â'r uchod, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr ymgeisydd.

13 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990: PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A RODDIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

16/01107/MNR – TREGANNA

DUKE OF CLARENCE HOTEL, 48 CLIVE ROAD
Adeiladu 17 fflat newydd gyda pharcio preifat yn Clive Road.

16/02752/MJR – LLYS-FAEN
LOZELLES, CHURCH ROAD
Datblygiad preswyl arfaethedig yn cynnwys 2 dŷ a 11 fflat hunangynhaliol gyda ffordd fynediad a chyfleusterau parcio, storio beiciau, gwastraff ac amwynder newydd.

16/02793/MJR – CATHAYS

THE GOWER HOTEL, 26 GWENNYTH STREET
Dymchwel y dafarn flaenorol ac adeiladu 9 annedd â 3 ystafell wely ac un annedd gyda 2 ystafell wely.

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Baragraff 8.7 i ddarllen:

"Wrth baratoi eu hadroddiad, daeth y DVS i'r casgliad y bydda'r datblygiad yn creu £79,000 yn ychwanegol ar sail cynllun marchnata tai. Er hynny, nid yw'r datblygwr yn cytuno'n llwyr â'r adroddiad hwn. Mae wedi cytuno cyfrannu £49,000 sy'n cydnabod ymhellach yr arian sydd wedi'i golli mewn refeniwiau o ganlyniad i'r cynlluniau diwygiedig"

17/00968/MJR – TRELÁI

TIR I'R DE O SNOWDEN ROAD AC I'R DWYRAIN O WILSON ROAD
8 tŷ fforddiadwy newydd ar y tir i'r de o Snowden Road a 12 fflat fforddiadwy newydd ar y tir i'r dwyrain o Wilson Road, Trelái.

Yn amodol ar ychwanegu Amod 19 a fydd yn nodi:

"Cyn i'r gwaith datblygu ddechrau ar y tai teras yn y canol bydd angen cyflwyno lliw y rendrad ar y wedd flaen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cymeradwyaeth a chaiff ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

14 : CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN BWERAU A DDIRPRWYIR

Nodwyd